LAMPETER TOWN COUNCIL CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.

COFNODION CYFARFOD MISOL 25ain O FEDI 2008 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawyd yr aelodau i'r Cyfarfod Misol gan y Maer Derek Wilson.

YN BRESENNOL

Y Maer Derek Wilson (Cadeirydd); Dirprwy-Faer Selwyn Walters;
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter; Margaret Davies-Evans;
Greg Evans; Robert (Hag) Harris; Lynda Mason-George; Robert Phillips;
Kistiah Ramaya; Chris Thomas & Dorothy Williams.
Yr Arolygydd Heddlu Calvin Griffiths a'r Blismones Jo Grey.

2. YMDDIHEURIADAU

Y Gyng. Elsie Dafis a'r Cyng John Davies.

3. MATERION YN YMWNEUD Â R HEDDLU

Derbyniwyd y newyddion diweddaraf parthed y cais am Ardal Ddi-Alcohol ar gyfer Llanbedr Pont Steffan, gan y Arolygydd yr Heddlu Calvin Griffiths.

Cyflwynwyd Adroddiad yr Heddlu parthed yr *Ardal Ddi-Alcohol i Lanbedr PS* gan yr Uwcharolygydd yr Heddlu Alun Harries i'r *Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion* ar yr 11eg o Fedi. Fe wnaed cyflwyniad yn ffafrio'r gwaharddiad alcohol gan y Cyng. Hag Harris yn ystod yr un cyfarfod. Fel canlyniad, y mae'r Bartneriaeth yn ymroi i geisio ffordd ymlaen a mae'r penderfyniad terfynol i gyflwyno Ardal Ddi-Alcohol ar gyfer y dref, yn nwylo'r Bartneriaeth.
Mynegodd yr Arolygydd Calvin Griffiths fod yr heddlu o blaid Ardal Ddi-Alcohol ond byddai gwaharddiad ar gyfer y dref yn gyfangwbl yn anhebygol o'i wireddi gan nad oedd yna ddigon o dystiolaeth i'w gyfiawnhau (digwyddiadau yn ymwneud â throseddau). Mae "casbeth" (nuisance) yn un o'r meini prawf cyfreithiol sy'n cyfiawnhau'r gwaharddiad ac adroddodd yr Arolygydd Griffiths fod yr Heddlu'n cydweithio ag Elen Prysor yr Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Ceredigion (CSC) mewn ymgias i gyflwyno apêl ar gyfer y Bartneriaeth, a fydd yn teilyngu Gwaharddiad. Byddai hyn yn golygu fod ardaloedd penodedig yn hytrach na'r dref yn ei gyfanwaith - Sgwâr Harford, y 3 prif heol i'r dref, Parc-yr-Orsedd a maes parcio'r Archfarchnad Somerfield yn cael eu penodi'n ardaloedd annymunol oherwydd problemau'n ymwneud ag alcohol. Penderfynodd aelodau, yn ôl cyngor yr Arolygydd Griffiths i wneud cais ar y cyd, rhwng yr heddlu a'r CT am ardal ddi-alcohol ar gyfer yr ardaloedd hyn yn unig. Er mwyn atgyfnerthu'r cais, cynghorwyd aelodau i erfyn ar y cyhoedd i gyflwyno llythyron i'r heddlu'n mynegi eu bod yn amgyffred yfed alcohol yn y lleoedd yma'n broblem. Pwysleisiodd yr Arolygydd Heddlu Griffiths na fyddai dyfodiad yr Ardal Ddi-Alcohol yn datrys yr holl broblemau gwrthgymdeithasol sy'n bodoli'n yr ardaloedd penodedig yma.

4. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

4.1 Datgelodd y Cyng. Rob Phillips diddordeb personol pan drafodwyd y cais am gymorth ariannol oddi wrth y Ford Gron, Llanbedr Pont Steffan.

4.2 Datgelodd y Gyng. Dorothy Williams diddordeb personol pan drafodwyd y cais am gymorth ariannol oddiwrth yr elusen Tenovus.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD MIS AWST

Cytunwyd eu bod yn gywir.

6. PRIF FATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 Cyfethol aelod newydd ar gyfer y Cyngor Tref: Adroddodd Bronwen Morgan, Y Swyddog Canlyniadau CSC nad oedd un cais ysgrifenedig wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i ofyn am Etholiad i lenwi'r sedd wag. Roedd yn awr yn bosibl i'r CT i gyfethol aelod newydd. Gan fod y CT yn berchen ar gworum (1/3 o'r set gyflawn o 15) nid yw hyn yn angenrheidiol. Penderfynwyd peidio â llenwi'r sedd wag ar hyn o bryd.

6.2 Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref: y Maer i ddarganfod y gost o atgyweirio'r hysbysfwrdd ar gyfer dibenion yswiriant. Yn disgwyl ateb oddi wrth y CSC parthed gosod yr hysbysfwrdd newydd yn sownd wrth wal y llyfrgell, mewn ymdrech i ostwng fandaliaeth.

6.3 Cymuned ar y Cyd: Meithrin cyd-berthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref; canllawiau terfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru- y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

6.4 Cynllun Diogelwch a Chymunedol Ceredigion 2008-11: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion: - y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

6.5 Dogfen Ymgynghorol: ***Cynigion ar gyfer Datblygu Addysg yng Ngheredigion:*** angen ymateb erbyn y 4ydd o Ragfyr. Adroddodd y Gyng. Barton iddi ddarllen y ddogfen ac nid oedd y cynnwys yn berthansol i Lanbedr PS ar hyn o bryd. Trefnwyd cyfarfod i drafod y mater ymhellach ar gyfer yr 8fed o Hydref am 7.00pm ym Mhenmorfa, Aberaeron.

6.6 Arwyddion newydd ar gyfer y dref: ceisiwyd cyfarfod rhwng cynrychiolydd y CSC ac is-bwyllgor y CT sef y Maer, Dirprwy-Faer, Cyng I Williams, H.Harris a R.Phillips ar gyfer Mawrth y 7fed o Hydref i geisio eglurhâd ar y Ddeddf Rheolau Traffig Heol ac i geisio datrys y broblem.

6.7 Trwydded Arfaethedig (Proposed Cumulative Impact Area) Tref Aberystwyth: Penderfynwyd i beidio ag ymateb i'r Ymgynghoriaeth.

6.8 Cystadleuaeth Calor Pentref y Flwyddyn: adroddwyd fod y beirniaid wedi ymweld â Llanbedr PS ar yr 11eg o Fedi. Cyflwynodd y Cyng Greg Evans y cais ar ran *Menter Llambed* ond bu'r Cyngor Tref yn chwarae rhan allweddol yn y gystafleuaeth ee trefnodd y CT gyfarfod ar gyfer yr 8fed o Fedi i lunio'r deithlen ar gyfer y beirniaid a gwnaed trefniadau â nifer o'r bobl a oedd yn cyfrannu.

6.9 Trefnu Gweithgaredd Codi Arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010; penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y flwyddyn newydd.

6.10 Ymholiad Côd Post – Mr Picton Jones; 2 Teras Peterwell, Llanbedr Pont Steffan: yn gofyn petai cod post Llys Idwal yn medru cael ei newid: drebyniwyd ateb oddi wrth Mr Mike Norman, Rheolwr Perthnasau Allanol, Grŵp y Post Brenhinol CCC, Post Brenhinol Caerdydd yn egluro nad bwriad cyfeiriad post oedd i ddisgrifio ardal daearyddol neu gweinyddol penodedig. Yn hytrach ei ddiben yw cynnig cyfarwyddid gosod trefn a thrywydd post, i staff y post i alluogi post i gyrraedd ei bentaith o unrhyw le yn y wlad. Byddant ond yn ystyried newid cod post petai swyddfa newydd ddosbarthu'n cael ei adeiladu NEU petaent wedi rhedeg allan o gyfeiriadau cod-post i'w clustnodi ar gyfer tai a busnesau newydd mewn ardal datblygu NEU bod y Cyngor Lleol yn gyfrifol am yr angen i newid drwy ail-drefnu rhif adeiladau neu glustnodi enwau newydd ar gyfer heolydd. Byddai'r wybodaeth yn cael ei chyfleu i Mr Picton Jones.

6.11 Cynllun Cadwch Cymru'n Daclus Adroddodd y Cyng. C.Thomas iddo gyflwyno'r cais; byddai'r cynllun arfaethedig yn cynnwys gwaredu â'r graffiti oddi ar y bont a phrynu biniau ar gyfer ail-gylchu.

6.12 **Ymholiad S.Davies ar gyfer trefniant torri gwair-** cae yr hen ysgol gynradd; adroddodd y Cyng Harris y byddai'r cais yn cael ei gyflwyno i aelodau'r Cabinet pan fyddai'r amser yn briodol ac iddo egluro'r sefyllfa i Sue Davies, 45 Maesyderi, Llanbedr Pont Steffan.

6.13 **Tai Ceredigion:** Derbyniwyd gyflwyniad oddi wrth y Cyng Hag Harris, Cadeirydd y Gymdeithas Tai Ceredigion a'r bwriad y Cyngor Sir i drosglwyddo stoc dai y Cyngor Sir i landlord newydd dielw sef *Tai Ceredigion*. Byddai hyn yn effeithio ar oddeutu 2,200 o gartrefi – tai, fflatiau a llety amnodd. Mae'r brif achos am y cynnig yn deillio o gyfarwyddid Lywodraeth Cynulliad Cymru yn mynegi y dylai pob tŷ cymdeithasol gwrdd â gofynion y Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2012 ee ceginau ac ystafelloedd baddon modern. Bydd rhaid i GSC wario £40miliwn ar stoc dai'r Cyngor yn y 5 mlynedd gyntaf a £96miliwn yn ystod y 25 mlynedd ar ôl hynny i gynnal y stoc hy £136miliwn dros 30 mlynedd; nid yw'n ddilys fel opsiwn ariannol ar ran y CSC.

Bydd y tenantiaid yn pleidleiso ar y mater yn ystod Hydref 2008. Os byddant yn pleidleisio o blaid trawsnewid landlord yna bydd hyn yn golygu y gall y Cymdeithas Tai Ceredigion fenthyg arain a gwneud gwelliannau o flaen y Cyngor Sir.
Derbyniwyd adroddiad i'r gwrthwyneb gan *Unison* sydd yn erbyn y trosglwyddiad; maent o'r farn y dylai tai cymdeithasol aros o fewn y sector gyhoeddus.

MATERION NEWYDD SY'N CODI

6.14 **Fforwm ar gyfer y Cyhoedd yn ystod cyfarfodydd y Cyngor Tref**: penderfynwyd cynnal fforwm ar gyfer y cyhoedd yng nghyfarfodydd dyfodol y Cyngor Tref. Byddai'n ofynnol i gyflwyno enwau'r unigolion a'r materion dan sylw o flaen llaw dan law'r Clerc. Cyfyngir yr amser trafod yn y cyfarfod i 5 munud ar gyfer pob cais a roddir ystyriaeth i 3 cais yn ystod y cyfarfod.

6.15 **Dofgen a dderbyniwyd oddi wrth Peter Bosley Cadeirydd Cymdeithas Llanbedr Pont Steffan, Y Sefydliad Alumni ar gyfer Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan**; gan dynnu sylw'r CT i'r sefyllfa ddifrifol a wyneba'r Brifysgol ar hyn o bryd ac yn gofyn am gymorth y CT i sicrhau ei dyfodol. Penderfynwyd i ymateb i'r cais yn mynegi bod y CT yn ymwybodol o'r sefyllfa a boed iddynt eu cefnogi i'r carn.
Y Ddogfen – *Datganiad Ynglŷn â Sefyllfa Llys Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a Chyngor Prifysgol Cymru Llanbedr PS* – gohiriwyd y drafodaeth tan y cyfarfod nesaf.

6.16 **Prifysgol Cymru Llanbedr PS – Datganiad i'r Wasg 25ain o Fedi 2008.** Mae Prifysgol Llanbedr PS wedi apwyntio Alfred Morris CBE DL fel Is-ganghellor dros dro i ddechrau dyletswyddau'n syth i arwain adolygiad o weledigaeth, strategaeth a chenhadaeth y brifysgol, gan gynnwys ymchwiliad o ystod o bartneriaethau strategol posibl. Penderfynwyd i ysgrifennu at Mr Alfred Morris gan ddymuno'n dda iddo'n ei rôl newydd ac i'w wahodd i gyfarfod ag aelodau'r Cyngor Tref.

7. GOHEBIAETH

7.1 **Blychau ffôn BT:** Cynllun Mabwysiadu Blwch Ffôn – gyda'r pwrpas o roi cynnig i gynghorau lleol ddiogelu blychau ffôn yn eu hardaloedd – nodwyd er gwybodaeth.

7.2 **Gwirfoddolwyr Mileniwm**: Mae Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn rhaglen wirfoddoli sy'n gwithredu ar lefel y DU ar gyfer pobl ifanc 16-24oed.

7.3 **Dot.Cym:** llythyr o ddiolch oddi wrth Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Prif Wenidog dros Gymru yn diolch i'r CT am gefnogi'r ymgyrch.

7.4 **Cantref:** Cyhoeddiad fod Lynne Grenfell wedi derbyn y swydd o Brif Weithredwraig *Cantref.*

7.5 **Un Llais Cymru**: Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol: Bydd y Maer a'r Gyng. Dorothy Williams yn mynychu'r Gynhadledd am bris o £60.00 yr un.

7.6 **Cyfarfod Grŵp 50+ Llanbedr PS 29/09/2008**: Eglwys Methodistaidd Sant Thomas am 2.00pm. Gŵr Gwadd Mr David Fretwell CAVO, Cyfle hefyd i gyfrannu i'r Strategaeth Cymuned Ceredigion

7.7 **Gwneud cais am Ollyngiad CSC (Cod Ymddygiad)**: Mae'r Is-bwyllgor wedi penderfynu caniatau Cynghorwyr Cymuned i ddod o flaen yr Is-bwyllgor er mwyn gwneud cais am ollyngiad yn bersonol, ar yr amod y cedwir at y drefn amgaeëdig. Yn benodol, mae'n rhaid i Gynghorwyr Cymued gwblhau Ffurflen Cais am Ollyngiad. Nid yw'r drefn hwn yn orfodol – nid oes angen i Gynghorwyr Cymuned fod yn bresennol mewn person a gallant barhau i ddefnyddio'r Ffurflen Cais am Ollyngiad yn unig, os oes yn well ganddynt.

7.8 **Penri James: Ymgeisydd Seneddol Plaid Cymru Ceredigion** – yn sôn ei fod wedi ei ethol fel ymgeisydd Plaid Cymru Ceredigion ar gyfer yr etholiad nesaf San Steffan. Os hoffai aelodau drafod yr etholiad neu'r hyn sydd ganddo ei gynnig i'r etholaeth, yna y mae croeso iddynt gysylltu ag ef.

7.9 **Gwahoddwyd aelodau i agoriad y Llyfrgell Roderic Bowen, Prifysgol Llanbedr PS** gan y Prif Wenidog dros Gymru Rhodri Morgan PC AC ar Ddydd Gwener y 17eg o Hydref am 10.00am.

8. MENTER LLAMBED

Derbyniwyd newyddion diweddar gan y Cyng Greg Evans

8.1 **Caiff yr ymgyrch *Transition Llambed*** ei lansio'n swyddogol ar y 16eg o Hydref. Bydd y gymdeithas yn ymroi i ymdrin â'r 2 broblem o *newid tywydd* a *ban-olew .*

8.2 **Mae'r bagiau** sy'n gefnogol i'r amgylchedd wedi eu harchebu.

9. CYNLLUNIO

9.1 **Ymgynghoriad ynghylch Arfarniad Cynaliadwyedd ac Adroddiad Cwmpasu Asesiad Amgylcheddol Strategol – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin.** Gellir cael copi o'r Adroddiad Cwmpasu gan yr Adain Flean-gynllunio neu gellir ei ddarllen ar wefan yr Awdurdod (www.sirgar.gov.uk)

10. CYLLID

10.1 **Ceisiadau Ariannol**

10.1.1 **Heddlu Dyfed-Powys:** cais oddi wrth SCCH Ryan Jones i lwyfannu disgo *Golau Glas* ar yr 24ain o Hydref yng ngwesty'r Llew Du, Llanbedr PS – i gyfrannu £50.00.

10.1.2 **Elusen Ganser Tenovus**: Mis Hydref mis ymwybyddiaeth o gancr y fron – i gyfrannu £50.00.

10.1.3 **Ford Gron Llanbedr PS:** Arddangosfa Tân Gwyllt: i gyfrannu £200.00

10.1.4 **Urdd Gobaith Cymru Ceredigion**: i gyfrannu £100.00.

10.1.5 **Penderfynwyd peidio â chyfrannu tuag at yr Elusen** *Y Groes Goch* sy'n darparu gwasanaethau allweddol ee benthyg offer meddygol, gofal cartref ar ôl bod yn aros yn yr ysbyty, mabwysiadu ffrind,a chymorth cyntaf. Mae hefyd yn ymateb i argyfwng difrifol megis tân a llifogydd.

10.2 **Canolfan Arddio Robert:** cywiriad i'r swm a ddyfynnwyd ynghynt – dylai fod £19.98 ac nid £39.86.

10.3 **Eirwyn Williams: torri gwair dros fisoedd yr haf – Parc-yr-orsedd** £510

Eirwyn Williams: trwsio'r llwybr cerdded o Eglwys San Pedr i Stâd Maesyderi £40.00.

10.4 Cyflog y Clerc (Medi) £498.60

10.5 Golau/Gwres/Storio £20.00

10.6 Treth Incwm: £109.78

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 LLWYBRAU CERDDED gan gynnwys Parc-yr-Orsedd

11.1.1 Archwiliad Meysydd Chwarae:
Oherwydd afiechyd, nid yw copi caled yr Adroddiad Archwiliad Maes Chwarae Parc-yr-Orsedd Tachwedd 2007, wedi ei gynhyrchu. Beth bynnag, mae'r ymgynghorydd a gariodd allan yr arolwg, wedi sicrhau y byddai wedi rhoi gwybod i'r Cyngor Sir yn syth petai yna unrhyw fater difrifol a oedd angen sylw brys.

11.1.2 Adroddodd y Cyng. Carter fod y gwaith ar y llwybrau (sydd wedi ei amlinellu mewn cofnodion cynt), wedi ei gwblhau gan Mr Eirwyn Williams. Mae'r anfoneb wedi ei chyflwyno i'r Cyngor Sir fel rhan o'r Cynllun Llwybrau Cymunedol 2008-09 (75% tâl)

11.1.3 Mae'r problemau'n ymwneud â'r llwybr sy'n arwain o'r Eglwys San Pedr i Stâd Maesyderi wedi eu datrys erbyn hyn.

11.2 CTCC

11.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Awst CSC: bu yna dau cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â lladrad a difrod troseddol. Mae problemau'n bodoli ar offer Recordio Fideo Digidol Llanbedr PS- mae ond yn cadw'r hyn a recordiwyd am 25 niwrnod. Hefyd ar gamera arall, does dim llun ar ôl iddi dywyllu.

11.2.2 Ymweliad â'r Ystafell Reoli
Trefnwyd 2 ymweliad ar gyfer Nos Lun 20fed o Hydref ac ar Nos Iau 23ain o Hydref am 7.30pm.

11.2.3 CTCC wedi eu Ileoli ar Deras yr Orsaf; Camerau adnabod Rhif Plat y Car yn awtomatig. Yr Heddlu Dyfed-Powys sy'n gyfrifol amdanynt ond cawsant eu gosod fel rhan o gytundeb CSC i uwchraddio'r System CTCC.

11.3 GOLAU STRYD

11.3.1 Mae golau stryd ger yr Orsaf Ambilans a Llys Idwal yn dal yn ddiffygiol – i adrodd at sylw'r CSC.

12. U.F.A.

12.1 Roedd aelodau'n drist i glywed am farwolaeth brawd y Cyng. Ramaya yn ddiweddar.

12.2 Cyhoeddodd y Gyng. D.Williams fod y Seremoni Wobrwyo *Llambed yn ei Blodau* yn cael ei chynnal ar y 29ain o Fedi yng Ngwesty'r Llew Du, Llanbedr PS.

12.3 Boed i'r Gyng. Williams a'r Maer fynychu *Seremoni Wobrwyo Cymru yn ei Blodau* ar y 19eg o Fedi yn Llandudno, ble gipiodd y dref y wobr arian oreurog– yr ail safle.

12.4 Byddai dymuniadau gorau'n cael eu cyfleu i'r Cyng. John Davies ar ei ymddeoliad o'r Siop Ddillad Dynion megis Danny BJ sydd wedi bod yn eiddo i'w deulu yn hwy na hanner canrif.

12.5 Penderfynwyd gwahodd cynrychiolydd o'r sefydliad Cyngor ar Bopeth i gyfarfod dyfodol y Cyngor Tref er mwyn trafod cyfraniad ariannol y Cyngor Tref i'r wasanaeth ac i egluro y fath o wasanaeth a gynigir gan CAB yn.Llanbedr PS.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau 30ain o Hydref am 7.30pm.